Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

DATBLYGYDD AML GYFRWNG
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Technegol
Adran Hyfforddi a Datblygu

Swydd Llawn Amser - 37 Awr
Cytundeb tymor penodol - 24 mis

GRADD 7: £23,541 - £24,491 y flwyddyn

Mae cyfle cyffrous wedi codi i benodi Datblygwr Aml Gyfrwng, a fydd yn gweithio yn ein Hadran Hyfforddi a Datblygu ac a leolir yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd i ddechrau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu a chynhyrchu cynnwys ar gyfer pecyn Learn Pro newydd y sefydliad, gan ddefnyddio meddalwedd amrywiaeth fel Articulate, Lectora, a Lab Advance ac ati… Sicrhau bod ein holl staff yn cael yr hyfforddiant e-ddysgu mwyaf diweddar sydd ar gael i wasanaethu anghenion ein cymunedau a llwyddo i wneud De Cymru yn fwy diogel.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwdfrydig, gyda chymhelliant uchel ac yn hawdd mynd ato er mwyn datblygu perthnasoedd gwaith proffesiynol gydag ystod o bersonél o fewn sbectrwm y gwasanaeth tân. Bydd y swydd werth chweil hon yn gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio ar y cyd ag adrannau eraill yn y sefydliad.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn cefnogi Uned Cymorth Hyfforddi'r sefydliad i gynhyrchu deunyddiau gweledol i'w cynnwys mewn pecynnau amlgyfrwng rhyngweithiol, darparu cefnogaeth arbenigol i ddatblygu a chynhyrchu dyluniadau / dogfennau dychmygus. Ynghyd â chydweithio â Datblygwyr Amlgyfrwng eraill ar draws y sefydliad ac mewn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill i greu pecynnau datblygu arloesol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio Â Ni /Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk. Sylwch nad ydym yn derbyn CV.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **Dydd Mawrth yr 19eg o Hydref 2021 am 12 ganol dydd**. Bydd dyddiad y cyfweliad i'w gadarnhau. Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig i: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

disability confident COMMITTED